

# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER  
11 CHWEFROR 2026  
AM 7.00 TRWY ZOOM

<b>YN BRESENNOL:</b> Cyng I Roberts, P Roberts, H N Evans, E Law-Shui Nicholson, C Thomas, G Parry, R G Parry, H Owens, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
<b>YMDDIHEURIADAU:</b> Cyng S Jones	
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> – Dim
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13.01.26 fel cofnodion cywir.
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>
<b>4.1</b>	<b>Maes Chwarae CCTV</b> – Cafodd y Clerc gyfarfod heddiw gyda'r Pennaeth a syrfëwr o Crime Prevention Services ynghylch dyfynbris ar gyfer y system CCTV. Cafodd gyngor gan y cwmni y byddai 1 camera yn ddigonol fel system "annibynnol" ac na fydd yn gysylltiedig â CCTV yr ysgol. Anfonir y dyfynbris yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf. Bydd angen i'r Clerc sefydlu polisi GDPR a bydd angen iddo gael cymeradwyaeth ffurfiol gan yr Adran Addysg i fwrw ymlaen. Yn anffodus, mae'r swyddog DPO yn y Cyngor Sir yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd. Gwirfoddolodd y Cynghorydd H Owens i fod yn DPO ar gyfer y cyngor ynghylch y CCTV.
<b>4.2</b>	<b>Terfyn cyflymder Engedi</b> – Nid yw'r Cyngor Sir wedi derbyn canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru eto.
<b>4.3</b>	<b>Wal y Fynwent</b> - Mae'r Clerc yn aros i'r contractwr wneud y gwaith
<b>4.4</b>	<b>Offer Newydd y maes Chwarae</b> - Mae'r offer newydd yn eu lle yn y maes chwarae.
<b>4.5</b>	<b>Torri Coed</b> - Mae apwyntiadau i drefnu dyfynbrisiau wedi cael eu canslo gan fod y Cadeirydd wedi bod yn sâl. Byddant yn cael eu haidrefnu.
	Llofnod.....Cadeirydd 10.03.26

<b>4.6</b>	<b>Tendrau torri gwair 2026</b> - Mae'r Clerc wedi derbyn 4 tendr. Cytunwyd i dderbyn Gerddi Gwych am £3360.00 (ond i gynnwys torri Llanbeulan 4 gwaith, nid 3)
<b>5</b>	<b>ADRODDIAD y CADEIRYDD</b> – Dywedodd y Cadeirydd fod gwirfoddolwyr St John’s Ambulance wedi cytuno i ddarparu hyfforddiant diffibriliwr i aelodau ac unrhyw un arall sydd â diddordeb. Cytunwyd i gynnig rhodd o £50.00 iddynt.
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MÔN</b>
	<b>Priffyrdd</b>
<b>6.1</b>	A4080 Engedi – gweler 4.2
<b>7</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>7.1</b>	Tendrau gwair 2026 – gweler 4.6
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	<b>Ysbwriel Llwybr maes Chwarae</b> - Mae cwynion wedi dod i law ynglŷn â chaniau cwrw a photeli alcohol yn cael eu dympio yn y llwybr sy'n arwain at y cae chwarae. Mae'r Clerc wedi rhoi gwybod i'r Heddlu am y mater a chafodd gyngor i ofyn i'r Cyngor Sir gasglu'r sbwriel. Yn y cyfamser, mae Mr Brian Jones (sy'n gwirfoddoli i'r cyngor) wedi cael gwared ar y sbwriel. Gofynnwyd i'r Clerc gael casglwr sbwriel gan Cadwch Gymru'n Daclus.
<b>8.2</b>	<b>Cronfa Pride in Place</b> - Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi hysbysu'r cyngor y bydd cyllid o "Pride in Place" yn cael ei ddyfarnu i gynghorau cymuned ar yr ynys. Efallai y bydd Bryngwran yn derbyn tua £8176. Mae angen i aelodau feddwl am yr hyn y gellir ei brynu gyda'r cyllid y mae angen ei wario erbyn mis Rhagfyr 2026.
<b>9</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
<b>9.1</b>	Humphreys Waste (Inv HWR37870) £60.00 (HWR37869) £24.00
<b>9.2</b>	Anglesey Computer Solutions £210.00 (cynnal a chadw gwefan y cyngor)
<b>9.3</b>	Gwiriad cyllid chwarterol 01.10.25 – 31.12.25 - Bydd hyn yn cael ei gwblhau gan y Cynghorydd Ceri Thomas
<b>10</b>	<b>MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF</b>
<b>10.1</b>	Parcio Lon Ty Hen
	Llofnod.....Cadeirydd 10.03.26